

YSBYTY CYMUNEDOL BRO DDYFI

Cylchlythyr Ailddatblygu



Diweddariad

Nawr bod y prif waith adeiladu bron â chwblhau mae tîm Willmott Dixon yn parhau i ddatblygu'r dyluniad mewnol. Mae'r gosodiad Mecanyddol a Thrydanol (M&E) ac addurn mewnol yn symud ymlaen yn dda gyda lloriau yn cael eu gosod yn ystod mis Hydref. Yn allanol, mae'r gwaith i'r gorchudd / soffit y perimedr ar y gweill gyda gwelliannau allanol pellach gan gynnwys rendro'r wedd flaen a gwaith ar y maes parcio yn dechrau'r mis hwn.



Y mis hwn mae gennym god QR newydd ar gyfer y prosiect. Sganiwch y cod (y llun ar y chwith) gan ddefnyddio camer ar unrhyw ddyfais symudol i gael gafael ar y model 'Matterport' diweddaraf.

"Rydwn i'n gyffrous iawn ein bod ni'n agosáu at gwblhau ac agor ein huned iechyd meddwl a lles newydd. Mae Machynlleth wedi mawr angen uned sy'n ysbrydoli iechyd a dyfeisgarwch yn ei hagwedd at iechyd meddwl. Bydd y cyfleuster yn fodern ac yn groesawgar gyda'r nod o wella profiad lles emosiynol pobl Bro Ddyfi. Bydd hwn yn gyfle ar gyfer gwahanol asiantaethau partner i ddod i Fachynlleth i gyflawni'r nod hwn. Rydyn ni'n mawr obeithio bydd ein cyfleuster newydd yn galluogi clinigwyr i rannu eu sgiliau a gwybodaeth a chynnig gwasanaethau sy'n fwy cynhwysfawr yn agosach at y gymuned."

David Owen
Tîm Iechyd Meddwl

Mae'r model yn caniatáu i chi fynd am dro 360° drwy'r safle a gweld yr holl gynnydd adeiladu diweddaraf. Mae hwn yn gyfnod cyffrous o'r gwaith gan ei fod yn adlewyrchu nifer y dyddiau cyn i ni agor y cyfleuster yn nechrau 2023.

Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi

1917 - Ysbyty'r Groes Goch Machynlleth



Agorwyd ysbyty ychwanegol y Groes Goch ar y safle ym mis Awst 1917, gyda gwelyau ar gyfer 48 o filwyr i adfer o glwyfau'r rhyfel. Roedd y nyrsys yn fenywod lleol oedd wedi treulio tair blynedd yn hyfforddi, ac fe roddodd meddygon eu gwasanaethau am ddim. Cafodd yr ysbyty ei gefnogi gan roddion oddi wrth bobl leol.



1920 - Ysbyty Coffa'r Brenin Edward VII, Machynlleth

Agorodd y cyfleuster fel ysbyty ar gyfer cleifion twbercwlosis, yn ail-agor fel Ysbyty Coffa'r Brenin Edward VII yn 1920.

1860 - Wyrwys Undeb Machynlleth

Mae gan Ysbyty Bro Ddyfi hanes cyfoethog. Cafodd safle'r ysbyty ei adeiladu yn wreiddiol yn 1860 fel Wyrwys Undeb Machynlleth.



Diweddariadau i'r Maes Parcio

Fel rhan o'r gwelliannau yn Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi, bydd Willmott Dixon yn cynnal gwaith yn fuan i wella ein maes parcio. Bydd hyn yn cynnwys cyrbau newydd, gosod wyneb newydd, leinin gwyn, lleoliadau parcio ychwanegol a gwelliannau i lwybrau i gerddwyr. Yn ychwanegol, bydd BIAP yn gosod chwe phwynt gwefru i gerbydau trydanol. Bydd gwaith dwythell pellach ar waith i ddiogelu'r safle yn y dyfodol ar gyfer y twf a ragwelir yn y nifer sy'n defnyddio cerbydau trydan.

Er mwyn cynnal y gwaith hwn, bydd angen i ni gau rhai rhannau o'r maes parcio y bydd yn cyfyngu ar ein capasiti parcio cyfredol ar y safle. Bydd y gwaith yn cael ei wneud mewn tri cham er mwyn cyfyngu ar nifer y lleoliadau parcio sydd yn cael eu colli â phosibl. Bydd arwyddion yn eu lle i egluro'r cyfyngiad parcio dros dro hwn i ymwelwyr.

Ar ran tîm y prosiect, hoffwn estyn ein hymddiheuriadau am yr anghyfleuster hwn. Bydd yr amharu tymor byr hwn yn arwain at faes parcio mwy hygrych, mwy diogel a hawdd ei ddefnyddio i'n cleifion a'n hymwelwyr.

Amgylcheddau Iach

Ar hyn o bryd yn y rhaglen mae cynlluniau'n cael eu cwblhau sy'n canolbwyntio ar wella amgylchedd yr ysbyty. Mae dyluniad mewnol, deunydd i nodi'r ffordd, arwyddion, gwaith celf a chynlluniau tirlunio i gyd yn cael eu mireinio.

Fel rhan o'r gwaith hwn rydym yn falch o rannu ein bod wedi comisiynu tri darn o waith celf i gynnwys; cerflun wrth fynedfa'r ysbyty, murlun wal o fewn y brif fynedfa a chyfres o gerddi / trawsgrifiadau i'w harddangos ar y wal. Rydym yn edrych ymlaen at adolygu'r cynigion a chynnig diweddariad yng nghylchlythyron y dyfodol!



Dyluniad gardd synhwyraidd newydd

Dros y Blynnyddoedd

1948 - Ysbyty'r Frest Machynlleth

Ymunodd yr ysbyty â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol fel Ysbyty'r Frest Machynlleth yn 1948 a esblygodd wedyn i fod yn ysbyty cymunedol.



Bydd y datblygiad yn Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi yn sefydlu Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi yn gadarn fel cyfleuster iechyd a lles integredig ar gyfer y gymuned leol. Yn ogystal ag integreiddio gwasanaethau gofal sylfaenol i safle'r ysbyty, bydd y cyfleuster hefyd yn cynnig lleoliad ar gyfer timau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector, gan annog gwell integreiddio ac effeithlonrwydd a chefnogi lles, atal a hybu iechyd.

2022 - Ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi

Mae'r gwaith adeiladu wedi hen ddechrau er mwyn gwella iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddatblygu 'hwb' cymunedol newydd ym Machynlleth. Mae hwn wedi bod yn bosibl oherwydd y buddsoddiad cyfalaf o £15 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

